

# Paratoi am ddyfodol gwahanol: Gwydnwch ariannol adroddiad sesiwn

## CYD-DESTUN

Drwy gydol mis Mai a Mehefin 2020 bu CGGC yn hwyluso rhaglen o fforymau trafod ar-lein er mwyn deall y materion sy'n wynebu'r sector gwirfoddol yng Nghymru o ganlyniad i Covid-19, y gwahanol bosibiliadau ar gyfer y dyfodol sy'n dod i'r amlwg a sut orau gallwn ni baratoi; drwy lywio tuag at ganlyniadau'r dyfodol y mae ar y sector eu heisiau. Mae hyn adeiladu ar y ddogfen [dysgu cychwynnol](#) y CGGC ym mis Mai 2020.

Cynhaliwyd cyfres o chwe sesiwn – gyda phob un yn canolbwyntio ar bwnc gwahanol – ochr yn ochr â holiadur ehangach. Cafodd y sesiynau eu hyrwyddo i holl aelodau CGGC ac roedd modd cael mynediad atynt am ddim.

Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar bedwar cwestiwn allweddol:

- Pa effaith mae Covid-19 wedi'i chael?
- Ble gallai hyn arwain at newid hirdymor - yn gadarnhaol ac yn negyddol?
- Beth yw'r goblygiadau i sector gwirfoddol Cymru?
- Beth allai sefydliadau gwirfoddol, CGGC, y llywodraeth, neu lunwyr penderfyniadau eraill ei wneud a all helpu i'n llywio tuag at ddyfodol gwell?

Paratowyd adroddiad cryno ar gyfer pob sesiwn gan [Richard Newton Consulting](#), ynghyd ag adroddiad terfynol a oedd yn ceisio dod â themâu a chamau gweithredu allweddol at ei gilydd. Mae'r adroddiadau hyn yn ceisio sefydlu themâu a chamau gweithredu yn hytrach na chreu crynodeb o'r hyn a ddywedwyd, a byddant yn cael eu rhannu'n eang gyda'r sector ynghyd â sefydliadau eraill fel cyllidwyr a llunwyr polisi.

Ar 14 Mai 2020, cynhaliwyd y fforwm trafod cyntaf yn archwilio gwydnwch ariannol. Roedd 90 o unigolion yn bresennol, yn cynrychioli ystod o sefydliadau o'r sector nid-er-elw. Roedd hyn yn cynnwys elusennau cofrestredig a chwmnïau â buddiannau cymunedol; ynghyd â sefydliadau cefnogi gan gynnwys CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac awdurdodau lleol.

Mae'r sector yn hynod amrywiol, ac er bod yr holl sefydliadau yn adrodd eu bod yn wynebu heriau sy'n effeithio ar eu gwydnwch ariannol, maent yn amrywio rhwng sefydliadau. Er bod y sector yn rhannu gwerthoedd o ran darparu budd i'r cyhoedd drwy weithredu o dan fodel busnes nid-er-elw, mae amrywiadau sylweddol o ran maint, model cynhyrchu incwm a diben sefydliadol; ac mae pob un o'r rhain yn dylanwadu ar y ffordd mae Covid-19 wedi effeithio ar y sefydliadau. Mae carfannau penodol yn y sector yn adrodd am heriau uniongyrchol i'w gallu i oroesi, gan gynnwys y sectorau diwylliant, treftadaeth a gofal plant.

## **GWYDNWCH ARIANNOL - BETH YW EFFAITH COVID-19?**

### **1. Mae sefydliadau yn adrodd am heriau o ran cynnal incwm gwirfoddol ar y lefelau a gyllidebwyd er mwyn osgoi gorfod torri gwasanaethau. Yn benodol:**

- Sefydliadau sy'n dibynnu'n gryf ar gyllid grant sydd yn y sefyllfa ariannol fwyaf diogel ar hyn o bryd yn gyffredinol. Nododd y rhai sy'n cael cyllid grant eu bod yn cael cefnogaeth barhaus gan gyllidwyr, gan gynnwys y gallu i ddefnyddio disgresiwn er mwyn newid modelau cyflawni a ariennir er mwyn wynebu heriau Covid-19.
- Mae sefydliadau sy'n dibynnu'n fawr ar incwm masnachol (gwerthu gwasanaethau, tocynnau neu adwerthu) neu incwm gwirfoddol gan unigolion (gan gynnwys rhoddion unigol, digwyddiadau a chodi arian cymunedol) wedi profi cwmp sylweddol yn eu hincwm.

- Mae rhai sefydliadau'n rhan o'r ymateb rheng flaen i Covid-19, ac mae'r sefydliadau hyn yn adrodd am gostau ychwanegol o ganlyniad i waith ychwanegol neu addasu gwaith sefydledig i fodolau cyflawni diogel (gan gynnwys ariannu cyflenwad o gyfarpar diogelu personol).
- Mae sefydliadau eraill yn adrodd eu bod wedi cau y rhan fwyaf / eu holl weithrediadau mewn ymateb i ofynion cadw pellter cymdeithasol a chyfyngiadau ar fasnachu a bennwyd ar rannau penodol o'r economi.
- Mae amrywiaeth sylweddol yn nhrefniadau llywodraethu sefydliadau yn y sector - o grwpiau anghyfansoddiadol i elusennau cofrestredig mawr gydag is-gwmnïau masnachu. Mae hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar y math o gymorth gwladol mae sefydliadau'n gallu cael mynediad ato. Mae'r sefydliadau hynny sydd â throsiant masnachu sylweddol wedi gallu defnyddio cyllid cymorth busnes, ac mae sefydliadau anghyfansoddiadol wedi methu â chael mynediad at lawer o gymorth.

## **2. Mae'r sector gwirfoddol wedi cael cymorth gan y llywodraeth, ond nid yw hygyrchedd y cymorth hwn wedi bod yn gyfartal ar draws y sector.**

- Roedd pryder sylweddol o ran y cynllun ffyrlo, a'r ffaith ei fod yn debygol o ddod i ben cyn i lawer o sefydliadau fod mewn sefyllfa i allu croesawu eu staff yn ôl i'r gwaith. Roedd gan rai sefydliadau bryderon ynghylch llif arian parod gyda thaliadau ffyrlo, ond dylai fod hyn wedi'i ddatrys bellach o ystyried pa mor gyflym mae'r cynllun yn prosesu rhagdaliadau.
- Roedd elusennau mwy o faint sydd ag elfennau masnachu sylweddol wedi bod yn gymwys i wneud cais i Gronfa Gadernid Busnes Cymru – fodd bynnag, nid oedd y taliadau hyn yn gwneud iawn yn llawn am y gwmp mewn incwm net.
- Roedd elusennau sydd â hanes o fasnachu yn ei chael yn haws cael mynediad at gyllid benthyciadau; er bod perthynas glir gyda gallu mwy hirdymor i ariannu benthyciadau.
- O ystyried bod eithriad i elusennau rhag trethi busnes, roedd pobl o'r farn bod anghydraddoldeb yn y gefnogaeth a roddir drwy'r system trethi busnes wrth gymharu â busnesau bach. I grynhoi, y farn oedd bod llawer o'r cynlluniau wedi'u cyfeirio at fusnesau, gydag elusennau'n gymwys i wneud cais fel atodyn.

3. Mae gwaith codi arian wedi parhau drwy gydol y pandemig yn achos y rhan fwyaf o sefydliadau. Mae cyllidwyr grant wedi rhyddhau lefelau sylweddol o gyllid brys; ac mae rhai sefydliadau wedi llwyddo i gynnal ymgysylltiad â rhoddwyr unigol. Mae gwaith codi arian arall sy'n gysylltiedig ag adwerthu, digwyddiadau a rhoddion corfforaethol wedi profi effaith niweidiol, gyda llawer o ddigwyddiadau'n cael eu canslo neu eu newid i rith-ddigwyddiadau.

Wrth ystyried codi arian:

- Roedd sefydliadau llai yn teimlo eu bod yn cael eu gadael ar eu hôl ar adegau, oherwydd eu diffyg capasiti i wneud ceisiadau am gyllid brys yn gyflym. Roedd hyn yn cynnwys diffyg capasiti digidol.
- Mae llawer o gyllidwyr grant wedi ail-flaenoriaethu cronfeydd i gefnogi sefydliadau i ymateb i Covid-19. Er bod hyn yn deilwng, mae pryder go iawn am ariannu hirdymor (mae llawer o'r cronfeydd brys wedi'u cyfyngu i chwe mis) ac am gyllid i achosion elusennol craidd sydd heb gymaint o rôl i'w chwarae yn yr ymateb rheng flaen i Covid-19.
- Mae sefydliadau wedi wynebu heriau o ran sut i gyfathrebu â rhoddwyr unigol, yn enwedig os yw eu gwasanaethau wedi cael eu hatal dros dro ac o ystyried bod y neges ymateb brys gychwynnol yn cael ei gwanedu dros amser.

## **GWYDNWCH ARIANNOL - BLE GALLAI HYN ARWAIN AT NEWID HIRDYMOR - YN GADARNHAOL AC YN NEGYDDOL?**

Mae'r newid hirdymor pwysicaf yn ymwneud â chynnal gwasanaethau. Yn y tymor byr, bydd lleihad mewn incwm yn arwain at leihad mewn gwasanaethau mewn rhai achosion. Mae edrych ar y tymor canolig i'r hirdymor yn heriol i lawer, yn enwedig gyda'r angen i addasu i'r 'normal newydd' ar ôl ffocws dwys gan gyllidwyr a chomisiynwyr ar ymateb i'r argyfwng. Mae sefydliadau yn cynllunio'r broses o ddychwelyd i gyflawni eu diben sylfaenol, wrth i'r cyfyngiadau symud lacio ac wrth i ni ddechrau byw yn 'y normal newydd'.

Nid yw sefydliadau'n glir ar y cam hwn beth yw'r amserlenni a'r meini prawf gweithredu y mae'n bosib y bydd rhaid glynu atynt. Fodd bynnag, wrth gynllunio ar gyfer hyn:

- Wrth i'r cyfyngiadau symud ddechrau llacio ar ddechrau haf 2020, mae pryder ynghylch 'cysgod Covid'. I bob pwrpas, bydd hi'n cymryd amser i sefydliadau ddiogelu cyllid a hyder y staff / defnyddwyr / gwirfoddolwyr er mwyn gallu darparu ar lefelau'r gorffennol.
- Roedd pryder y byddai comisiynwyr (yn enwedig o ran cyllidwyr) yn ystyried bod cyflawni gwasanaeth o bell yn ffordd o arbed arian - ond mae angen asesu hyn yn llawn o ran effaith ar ansawdd y ddarpariaeth.
- Mae hyder yn chwarae rhan fawr wrth ystyried ailgydio mewn gwasanaethau, ac mae'n amhosib mesur hyn ar hyn o bryd - er enghraifft pa mor hyderus fydd gwirfoddolwyr i barhau â rolau gwirfoddol?
- Mae angen i'r sector sylweddoli bod newid yn orfodol. Mae'n bosib y bydd angen uno sefydliadau er mwyn cynnal gwasanaethau - a dylai sefydliadau fel CGGC ddarparu cefnogaeth i hyn.

Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod bod rhai newidiadau cadarnhaol wedi bod i ddarpariaeth weithredol, a dylid gwerthuso'r rhain a'u gwreiddio ym modelau cyflawni'r dyfodol - mae'r rhain yn cynnwys partneriaethau newydd a defnydd o dechnoleg ddigidol. Ffurfiwyd partneriaethau newydd yn aml i gefnogi modelau cyflawni gorleol.

## **GWYDNWCH ARIANNOL - BETH YW'R GOBLYGIADAU I SECTOR GWIRFODDOL CYMRU?**

Mae goblygiadau i sector gwirfoddol Cymru, mewn perthynas â Covid-19. Yn y pen draw, mae hyn yn debygol o effeithio ar strwythur y sector yng Nghymru. Mae'n rhaid i sefydliadau'r sector ymateb i:

- Newidiadau yn y galw am wasanaethau – nid yw'r newidiadau hyn mewn galw yn gyson. Mae rhai sefydliadau yn wynebu lefelau uwch nag erioed yn y galw am wasanaethau, gan eu bod yn darparu gwasanaethau rheng flaen. Mae llawer yn paratoi am lefelau uchel mwy hirdymor yn y galw am wasanaethau, oherwydd y rhagwelir y bydd diweithdra a thlodi yn cynyddu ac mae heriau'n dal i fod o ran iechyd a lles y boblogaeth. I'r gwrthwyneb i hyn, mae sefydliadau eraill yn wynebu cwmp yn y galw am wasanaethau, hynny yw sefydliadau yn sectorau'r diwylliant a threftadaeth sydd ar gau ar hyn o bryd ac y bydd

yn rhaid iddynt agor gyda chyfyngiadau ar y nifer o bobl y maen nhw'n ymwneud â nhw yn gorfforol er mwyn cydymffurfio â mesurau cadw pellter cymdeithasol.

- Newidiadau i gyflenwad gwasanaethau yn ymwneud â chyfyngiadau ar adnoddau. Mae sefydliadau'n pryderu ynghylch eu gwydnwch ariannol yn yr hirdymor, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu gallu ariannol i ddarparu gwasanaethau. Yn benodol, mae sefydliadau'n adrodd am gwmp yn yr incwm gwirfoddol, cronfeydd wrth gefn yn gwacáu, yr angen i ariannu benthyciadau (gyda benthyciadau a gafwyd fel ymateb uniongyrchol i Covid-19), ac ailasesu blaenoriaethau rhoddwyr / comisiynwyr. Gallu sefydliadau i ymateb i'r partneriaethau gorleol sy'n dod i'r amlwg.

Gan hynny, mae'n anochel y bydd strwythur y sector yn newid. Mae'n bosib y bydd rhai sefydliadau'n cau, ac eraill yn uno â'i gilydd. Mae'n bosib y bydd rhai carfannau o'r sector (hynny yw y rhai nad ydynt yn rhan uniongyrchol o waith iechyd a gofal cymdeithasol) yn tyfu, tra bydd eraill yn cyfangu mewn maint gan na fydd eu gwasanaethau'n cael eu blaenoriaethu i gael cyllid, yn yr un modd ag yr oeddent cyn y pandemig.

## **GWYDNWCH ARIANNOL - BETH ALLAI SEFYDLIADAU GWIRFODDOL, CGGC, Y LLYWODRAETH, NEU LUNWYR PENDERFYNIADAU ERAILL EI WNEUD A ALL HELPU I'N LLYWIO TUAG AT DDYFODOL GWELL?**

Mae nifer o gamau gweithredu yn codi o'r sesiwn y dylai CGGC a'r aelodau eu hystyried a'u datblygu gyda rhanddeiliaid eraill er mwyn cynnig y gwydnwch ariannol gorau posib i'r sector gwirfoddol a chymunedol.

- ▶ Wrth gynrychioli'r sector i randdeiliaid eraill sy'n ymwneud â'r ymateb i Covid-19, mae'n hanfodol y caiff y sector cyfan, a'r ystod o heriau y mae'n eu hwynebu, ei ddeall a'i rannu gyda rhanddeiliaid trydydd parti. Dylai hyn gynnwys mapio'r heriau a wynebir gan wahanol garfanau o'r sector y gellir eu rhannu â rhanddeiliaid ehangach er mwyn helpu i lywio penderfyniadau o ran cynllunio gwasanaethau.
- ▶ Mae gan y sector rôl allweddol i'w chwarae yn adferiad Cymru. Felly, mae angen iddo gael ei gynrychioli ar y grwpiau sy'n cynghori'r adferiad - o grŵp cynghori allanol Llywodraeth Cymru ar adfer dan arweiniad y Cwnsler Cyffredinol, i grwpiau adfer sy'n canolbwyntio ar y sector. Mae

angen ystyried gweithio ar draws y sectorau (cyhoeddus / preifat / gwirfoddol), a hyrwyddo'r rôl y mae'r sector Gwirfoddol yn ei chwarae o ran yr Economi Sylfaenol yn llawn.

- ▶ Wrth i'r Llywodraethau (Cymru a'r Deyrnas Unedig) ailwerthuso cefnogaeth i sefydliadau, mae'n hanfodol gwneud achos dros gyllid sy'n hygyrch i'r sector gwirfoddol a chymunedol. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau anghorfforedig.
- ▶ Mae angen annog cyllidwyr grant, drwy waith unigol a mentrau fel Fforwm Cyllidwyr Cymru, i rannu cynlluniau ar gyfer dosbarthu grantiau ar ôl yr ymateb cyllid brys.
- ▶ Mae angen cefnogaeth ar sefydliadau yng Nghymru i ddatblygu cynigion i roddwyr a dysgu beth yw'r arferion gorau wrth godi arian mewn meysydd eraill ar ôl Covid-19.
- ▶ Mae angen cyfle ar sefydliadau yn y sector i rannu pryderon, dysgu a chynllunio wrth symud ymlaen, ac mae angen hwyluso hyn oll.
- ▶ Bydd newidiadau strwythurol i'r sector. Ar gyfer y rhai yr effeithir arnynt, ni ddylai hyn deimlo fel methiant, ond yn ffordd gyfrifol ymlaen. Mae angen sefydlu diwylliant sy'n galluogi sefydliadau i archwilio newidiadau strwythurol sy'n arwain at wasanaethau gwydn. Mae'r newidiadau strwythurol hyn yn cynnwys uno sefydliadau a chydweithio o bosib.

**0300 111 0124**

[wcva.cymru](http://wcva.cymru)

Cyhoeddwyd Mehefin 2020  
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru  
Rhif cofrestru'r elusen 218093  
Cwmni cyfyngedig drwy warant 425299  
Cofrestrwyd yng Nghymru